Annwyl Bawb

E-FWLETIN 3 MEDI 2008

Mae blwyddyn ysgol newydd yn dechrau a Morlan hefyd yn dechrau prysuro unwaith yn rhagor.

- Gohiriwyd cychwyn **arddangosfa ffotograffau Hafal** nes dydd Llun nesaf, ond bydd hi ymlaen nes canol Hydref felly bydd digon o gyfle i'w gweld. Mae'n rhan o ymgyrch Hafal ***Ydych chi wedi clicio?*** sy'n ceisio chwalu'r stigma sy'n bodoli ynghylch salwch meddwl. Mae'r arddangosfa yn cyd-redeg â chlwb cinio Hafal sy'n cyfarfod yma bob dydd Iau ar hyn o bryd, a Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd (10 Hydref) pan fydd Ymddiriedolaeth Iechyd Hywel Dda yn cynnal cynhadledd ar gyfer pobl a mudiadau sy'n ymwneud â materion iechyd meddwl.
- Mae mis Medi yn amser i ystyried dysgu rhywbeth newydd wrth gwrs ac mae Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnal **Diwrnodau Cofrestru** ar gyfer eu cyrsiau Addysg Gydol Oes ar ddau ddydd Sadwrn yn ystod y mis – y 6ed a'r 20fed. Ddiwedd y mis wedyn bydd dosbarthiadau dawnsio Aber Swing yn dychwelyd ar nosweithiau Mawrth, a bydd tri sesiwn o wersi Cymraeg yma bob wythnos hefyd.
- Bydd y **Grŵp Gweddi a Choffi** yn ail-gychwyn eu cyfarfodydd ar foreau Mawrth o 9 Medi ymlaen. Dyma gyfle i gymdeithasu dros goffi am 10.30 ac yna cael amser tawel a gweddi o 11.00-11.20.
- **Nos Iau, 11 Medi cynhelir cyfarfod misol nesaf** cangen leol **Amnest Rhyngwladol** yn yr Ystafell Bwyllgor am 7.30.
- Bydd cyfarfod misol Prifysgol y Drydedd Oes yma am 2.30 ar brynhawn Iau, 18 Medi pan fydd Monica Lloyd Williams yn siarad ar ei phrofiadau ***O Ynyshir i Fforestydd Glaw Sierra Leone***.
- Cawn fynd i fyd y ddrama nos Sadwrn, 27 Medi, gyda pherfformiad Cwmni Theatr Cydweithredol Troed y Rhiw o ***Blodeuwedd*** Saunders Lewis. Mae tocynnau'n costio £6 (£4 gostyngol), ac mae'r noson yn dechrau am 7.30. Bydd paned ar y diwedd a chyfle i drafod a siarad gyda'r cast a'r criw.
- Yna, am 7.30, nos Lun, 29 Medi, bydd yr Athro Gareth Wyn Jones, Bangor yn annerch ar y thema ***Tswnamis Bach a Mawr*** fel rhan o'r gyfres Dweud ei Ddweud. Trefnir y nosweithiau hyn gan Morlan er mwyn rhoi cyfle i drafod ac ystyried amryw bynciau pwysig. Bydd thema mis Medi yn ymwneud â'r ymatebion gwrthgyferbyniol i tswnami cefnfor India rai blynyddoedd yn ôl, ac yn gyfle i drafod pob math o gwestiynau sy'n codi yn sgîl trychinebau o'r fath. Croeso i bawb - mynediad am ddim.

Mae'n werth rhoi rhag-hysbys hefyd i rai o'r digwyddiadau y mae Pwyllgor Rhaglen Morlan wrthi'n trefnu ar gyfer mis Hydref – cofiwch eu nodi yn eich dyddiadur:

- Bydd y noson **Dweud ei Ddweud** nesaf ar nos Lun, 13 Hydref pan fydd Aled Jones Williams yn trafod ei ddrama ***Iesu.*** Bu tipyn o drafod ar y ddrama hon pan berfformiwyd hi yn yr Eisteddfod ym mis Awst felly bydd y noson hon yn rhoi cyfle i glywed mwy amdani ac i godi rhai pwyntiau gyda'r dramodydd ei hun. Os na lwyddoch chi i weld y ddrama yn yr Eisteddfod, fe'i perfformir yn Theatr y Werin ar 10 ac 11 Hydref.
- Mae'n **Wythnos Un Byd** o 19 i 26 Hydref. Thema'r wythnos eleni yw *Tyfu Gyda'n Gilydd* ac mae Morlan wedi gwahodd arlunwyr o Blas Lluest i gynnal arddangosfa ar y thema hon yng nghyntedd Morlan o 20 Hydref i 21 Tachwedd. Mae digwyddiadau eraill Wythnos Un Byd yn cynnwys noson i groesawu'r myfyrwyr

tramor (22 Hydref) a chyngerdd gydag amryw o dalentau lleol ar nos Sadwrn, 25 Hydref – rhagor o fanylion i ddilyn.

- Bydd Theatr Hijinx yn ôl yma ar nos Fercher, 29 Hydref, gyda'r ddrama ***The Other Woman***. Lleolir y ddrama yng nghyfnod y rhyfel mawr ac mae'n ymdrin â bod yn wrthwynebydd cydwybodol, ac yn codi cwestiynau ynglŷn â beth mae pobl yn fodlon ei wneud er mwyn goroesi mewn amseroedd caled.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr